# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 18 Medi 2019 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 18 Medi 2019 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 25 Medi 2019 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET:**
Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**PWNC**
Protocol Treth Cyngor

Arwyddo ***Protocol Treth Cyngor Cymru – Arfer Dda wrth Gasglu Treth y Cyngor*** (sydd yn yr Atodiad) ar ran Cyngor Gwynedd

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**
Gweler yr adroddiad swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**
Nid oes unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**
Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn.
Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad perthnasol.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Refeniw a Risg) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 18/9/19 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | [illegible] |

**Pwnc :**

Protocol Treth Cyngor

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:**

Arwyddo ***Protocol Treth Cyngor Cymru – Arfer Dda wrth Gasglu Treth y Cyngor*** (sydd yn yr Atodiad) ar ran Cyngor Gwynedd

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i raglen waith helaeth i weld sut gellir gwella'r system dreth gyngor dros y tymor byr, canolig a hir i gyflawni ar eu hymrwymiad i wneud treth cyngor yn "decach". Er mwyn gwireddu'r amcan yma, mae'r Llywodraeth wedi cydweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, ac mae sawl cam eisoes wedi ei gymryd. Er enghraifft:
   - Dileu'r cosb o garchar yng Nghymru am beidio â thalu treth gyngor
   - Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am y Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor
   - Cyflwyno eithriad cyson ar draws Cymru i bobl ifanc yn gadael gofal fel nad oes angen iddynt dalu treth cyngor
   - Sicrhau ymdriniaeth gyson ar draws Cymru i eithriadau i bobl gyda "nam meddyliol difrifol".
2. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau lleol wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd fwy cyson, sy'n canolbwyntio ar y bobl wrth ymdrin â dyledion, ôl-ddyledion a gorfodi, drwy gyflwyno Protocol Treth Cyngor Cymru.

Cefndir a Chyd-destun

3. Mae camau cyfreithiol penodol y dylai awdurdod lleol eu cymryd pan yn ymdrin ag ôl-ddyledion Treth Cyngor. Mae'r fframwaith ar gyfer gorfodi treth cyngor wedi'i nodi yn Atodlen 4 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a darperir y broses fanwl yn bennaf yn Rheoliadau Treth Cyngor (Gweinyddu a Gorfodaeth) 1992.

4. Os yw person yn peidio talu eu treth cyngor ar ôl i'r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad galw (bil), rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad atgoffa iddynt sy'n esbonio canlyniadau peidio â thalu. Os yw'r person yn dal i beidio â thalu, rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno hysbysiad terfynol fel arfer. Ar ôl cyflwyno'r hysbysiad terfynol hwn, rhaid i'r awdurdod lleol aros saith diwrnod arall cyn gwneud cais i'r llys ynadon am orchymyn atebolrwydd mewn perthynas â'r swm sy'n weddill.

5. Os yw'r llys ynadon yn fodlon bod y swm a hawlir yn daladwy ac nad yw wedi'i dalu, mae'n rhaid iddo wneud gorchymyn ar gyfer y swm cyfanredol o'r swm/symiau sy'n ddyledus ynghyd â chostau rhesymol yr awdurdod lleol.

6. Gall awdurdod lleol ddewis gorfodi'r gorchymyn atebolrwydd mewn sawl ffordd, gan gynnwys trwy:

   - Orchymyn atodiadau enillion (gan gyfarwyddo cyflogwr y dyledwr i wneud didyniad o enillion y dyledwr);
   - Cymryd rheolaeth ar nwyddau;
   - Gorchymyn codi tâl ar eiddo'r dyledwr treth gyngor;
   - Deisebu am fethdaliad;
   - Gwneud cais i'r Adran Gwaith a Phensiynau am ddidyniadau o symiau sy'n daladwy i'r dyledwr mewn perthynas â chefnogaeth a lwfansau'r llywodraeth.

7. Dim ond un dull gorfodi y gall yr awdurdod lleol ei ddefnyddio ar unrhyw adeg ond, yn amodol ar y cyfyngiad hwn, gall ddefnyddio nifer o wahanol ddulliau i geisio gorfodi'r gorchymyn atebolrwydd a gall hefyd geisio defnyddio'r mesurau sydd ar gael fwy nag unwaith. Yn ymarferol, mae awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol.

8. Er fod y trefniadau hyn yn eu lle ers nifer o flynyddoedd, a deddfwriaeth hefyd yn ei le i reoleiddio'r asiantaethau gorfodaeth ("beilïaid"), mae cyrff dyngarol megis Cyngor ar Bopeth a'r Money Advice Trust wedi beirniadu awdurdodau lleol yn barhaus am eu parodrwydd i ddefnyddio gorfodaeth er mwyn adennill dyledion Treth Cyngor.

9. Yn sgil y pryderon hyn, cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r awdurdodau lleol yn chwilio am ffyrdd mwy cyson a theg wrth ddefnyddio gorfodaeth. Mae ***Protocol Treth Cyngor Cymru – Arfer Dda wrth Gasglu Treth y Cyngor*** yn pwysleisio'r angen i ganolbwyntio ar feithrin cysylltiadau yn gynnar gyda phobl sy'n talu'r dreth gyngor a hybu perthnasoedd gwaith agosach gyda'r sector cynghori ac asiantaethau gorfodi i sicrhau nad yw problemau yn gwaethygu y tu hwnt i reolaeth yn ddiangen ar gyfer pobl agored i niwed.

10. Fel arwydd o gytundeb i weithredu'n unol â'r Protocol, mae angen i Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r 22 awdurdod lleol wneud penderfyniad clir, diamwys i'w arwyddo.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

11. Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i gasglu treth cyngor yn gydymdeimladwy, ond mae'n realiti anorfod ar hyn o bryd fod ôl-ddyledion treth cyngor yn parhau i gael eu cyfeirio i sylw asiantaethau gorfodaeth ar ôl dilyn y camau cyfreithiol angenrheidiol. Serch hynny, mae'r Cyngor yn cymryd sylw parhaus dros ymddygiad ac ansawdd y cyrff allanol y mae'n eu defnyddio.
12. Mae adolygu parhaus yn golygu fod Gwasanaeth Trethi Cyngor Gwynedd eisoes yn cydymffurfio â gofynion y Protocol ac nad oes angen gwneud newidiadau i'w ffyrdd o weithio ar unwaith. Mae'r Cyngor yn gefnogol i'r Protocol ac yn awyddus i'w arwyddo.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r daflen yma ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys

Swyddog Monitro

Dim sylwadau o ochr priodoldeb.

Aelod/au Lleol - Dim yn berthnasol

# Protocol Treth Cyngor Cymru

# Arfer Dda wrth Gasglu Treth y Cyngor

**Cymeradwywyd gan:**

**Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CLILC • WLGA

**Ionawr 2019**

## Protocol Treth Cyngor Cymru

## Cyflwyniad

Mae'n wir bod talwyr Treth y Cyngor yn derbyn gwasanaeth gwell pan fo awdurdodau lleol[1], asiantau gorfodi ac asiantaethau cyngor yn gweithio'n agos gyda'i gilydd. Gall ymgysylltu'n gynnar a chyswllt rhagweithiol gydag unigolion sy'n cael trafferth talu biliau atal trethdalwyr rhag mynd i fwy o ddyled a lleihau straen.

Mae'n bosib yn gall hyn hefyd leihau costau casglu a'r galw ar wasanaethau cyhoeddus lleol.

Mae'r protocol hwn yn darparu canllawiau ar sut y gellir cryfhau partneriaethau lleol a sut i gefnogi preswylwyr yn well. Mae'r ddogfen hefyd yn adeiladu ar y gwaith ymchwil helaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[2], mewn cysylltiad â dulliau'r Awdurdod Lleol i adennill dyled, a'r protocol arfer da presennol a gefnogir gan y Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cenedlaethol[3].

Mae'r protocol yn amlinellu'r arfer orau a chanllaw ar sut i ddelio â chwsmeriaid bregus. Os nad yw cwsmer yn ymgysylltu â'r awdurdod lleol yn gynnar, mae'n bosib y byddai unrhyw fregusrwydd ond yn cael ei nodi yn dilyn cyswllt ag asiant gorfodi. Mae bregusrwydd yn amhosib i'w adnabod heb ryw fath o gyswllt ac felly bydd ymgysylltiad cynnar gan gwsmeriaid neu eu cynrychiolwyr o gymorth i bawb sy'n gysylltiedig, er mwyn gallu darparu'r cymorth a'r cyngor priodol, boed hynny gan yr awdurdod lleol neu gan sefydliadau mwy priodol.

Mae'r protocol yn cydnabod yr angen am gymorth ychwanegol i helpu cwsmeriaid bregus i ymgysylltu â'r awdurdod lleol neu'r asiantau gorfodi ar unrhyw adeg yn ystod y broses. Mae cydnabyddiaeth hefyd bod rhai achosion o fregusrwydd yn fwy amlwg na'i gilydd, er enghraifft byddai beichiogrwydd neu anabledd difrifol yn amlwg, ond mae'n bosibl na fyddai cyflyrau eraill mor amlwg.

Gall bregusrwydd trethdalwyr amrywio yn dibynnu ar y cwsmer a gall fod am gyfnod penodol o amser yn unig. Yn gryno, lle bo'r asiant gorfodi yn amau bod bregusrwydd yn ffactor o ran gorfodi, naill ai bregusrwydd y trethdalwr neu unigolyn arall sy'n byw yn yr eiddo, dylai atal y broses dros dro ac egluro y bydd yn cyflwyno adroddiad ac unrhyw dystiolaeth sydd ar gael i'r awdurdod lleol. Yna bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu ar y camau nesaf, i barhau â'r broses orfodi ai peidio a chynghori'r asiant gorfodi yn unol â hynny.

---

1 Pan rydym yn defnyddio'r term "awdurdodau lleol" mae hyn yn cynnwys contractwyr allanol yr awdurdod lleol, pan fo awdurdod lleol wedi creu cytundeb â sefydliadau allanol i ymgymryd â gwaith gweinyddol y broses casglu treth.

2 Dulliau Awdurdodau Lleol i adennill treth y cyngor yng Nghymru – Ymchwil Cymdeithasol Rhif:57/2017, cyhoeddwyd 28/09/2017

3 Protocol Treth Cyngor Cymru – Protocol Arfer Dda wrth Gasglu Treth y Cyngor Diwygiedig (Medi 2017)

Pan fydd bregusrwydd yn cael ei gydnabod, er y bydd y trethdalwr yn cael ei drin â gofal a chymorth, prif ffocws y ffordd o weithredu a gytunwyd arni fydd sicrhau bod Treth y Cyngor sy'n ddyledus yn cael ei dalu, ei esgusodi neu ei leihau, pa bynnag un sy'n berthnasol o dan yr amgylchiadau neu gyfuniad o'r tri.

Mae'r protocol yn cyflwyno'r holl argymhellion a amlinellwyd ym mhapur ymchwil Llywodraeth Cymru ac mae'n nodi cyfres o gamau gweithredu i sefydliadau partner eu hystyried yn lleol. Bwriad y ddogfen hon yw galluogi ac annog cysylltiad rheolaidd i drafod arferion a pholisïau'n ymwneud â Threth y Cyngor.

Bydd gan Awdurdodau Lleol weithdrefnau penodol ar waith i gynorthwyo cwsmeriaid bregus, a thrwy eu hadolygu'n rheolaidd gall bob parti sicrhau bod achosion o ôl-ddyledion yn cael eu trin yn briodol tra bo cwynion yn cael eu datrys yn effeithlon.

Dylai'r protocol hwn gryfhau'r prosesau casglu treth a sicrhau cysondeb ar draws Gymru. Mae'r protocol hefyd yn cydnabod bod gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol Gytundebau Lefel Gwasanaeth, sydd eisoes ar waith gydag Asiantau Gorfodi, a fyddai'n cynnwys mwy o fanylder ynghylch materion gweithredol a gweithrediadol. Bydd y ddogfen hon yn ategol i'r cytundebau hyn ac yn darparu canllawiau sylfaenol ar y maes hwn.

Bwriad y protocol yw sicrhau bod cysondeb wrth ddarparu cymorth i'r unigolion hynny sy'n cael trafferth rheoli eu harian, tra bod gorfodaeth yn effeithiol yn erbyn yr aelwydydd hynny sydd â'r arian i dalu ond yn dewis peidio gwneud hynny.

Drwy fabwysiadu'r protocol hwn, bydd Awdurdodau Lleol, Asiantau Gorfodi ac asiantaethau cyngor yn cynorthwyo trethdalwyr â thalu eu biliau treth y cyngor ar amser a chael mynediad at gymorth a chyngor ar ddyled pan fo'r angen.

## Partneriaeth

I feithrin gwaith partneriaeth sy'n fwy effeithiol:

1. Bydd Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd gyda'r Asiantau Gorfodi a'r Asiantaethau Cyngor enwebedig neu weithredol i drafod materion ymarferol a materion polisi, gyda'r nod o wella darpariaeth gwasanaeth a rheoli disgwyliadau cwsmeriaid. Dylid pennu amlder a chwmpas y cyfarfodydd hyn yn lleol, fodd bynnag dylid cynnal cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.
2. Bydd gan bob parti sianeli cyswllt dynodedig er mwyn sicrhau bod problemau yn cael eu datrys yn unol â therfynau amser a gytunwyd yn lleol.
3. Bydd pob parti yn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth drwy rannu arferion da ac, os yn briodol, gweithdai hyfforddiant.
4. Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am y broses gasglu gyffredinol a, lle bo'n briodol, dylent weithio ar y cyd ag Asiantaethau Cyngor ac Asiantau Gorfodi i ddarparu hyfforddiant, yn enwedig ar ymwybyddiaeth o fregusrwydd a chaledi.
5. Mae'n rhaid i drefniadau gweithdrefnol gydag Asiantau Gorfodi sicrhau mewn achosion lle mae'r Asiant Gorfodi neu'r Awdurdod Lleol wedi nodi bregusrwydd, bod proses eglur i ohirio'r achos dros dro nes y ceir cyfarwyddyd pellach gan yr Awdurdod Lleol a, lle bo'n briodol, bod y cwsmer yn cael ei atgyfeirio at yr adran briodol. Bydd hyn yn rhoi amser i'r cwsmer ddarparu tystiolaeth o fregusrwydd ac, os yn briodol, i geisio cyngor a chymorth neu i sefydlu trefniant talu addas.
6. Dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio eu gweithdrefnau cwyno presennol i bobl gael rhoi gwybod am gwynion. Dylai Awdurdodau Lleol fonitro a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn rheolaidd (os yn briodol) mewn perthynas â'r cwynion hynny sy'n cael eu cynnal.

## Gwybodaeth

I wella'r wybodaeth a ddarperir i dalwyr Treth y Cyngor mewn perthynas â Threth y Cyngor, sut i gael cefnogaeth a chyngor ar ddyled a hyrwyddo ymgysylltiad:

1. Nod pob parti yw cydweithio i sicrhau fod biliau a llythyrau yn hawdd i'w dilyn a'u deall o fewn y gofynion statudol amrywiol yn ymwneud â'r cynnwys. Dylai llythyrau gynnwys rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost a dylid sicrhau bod yr wybodaeth ar gael ar-lein.
2. Mae Awdurdodau Lleol eisoes yn cynnig ystod eang o drefniadau talu a ddylai ganiatáu i'r cwsmer wneud dewisiadau, yn cynnwys dyddiadau talu gwahanol fewn y mis, rhannu'r taliadau rhwng mis Ebrill a mis Mawrth (12 mis yn hytrach na 10), sawl dyddiad debyd uniongyrchol, a gallant hefyd gynnig symiau talu i gynorthwyo unigolion ag incymau ansefydlog. Bydd hyn yn caniatáu i unigolion gyllidebu yn fwy effeithiol.
3. Dylai Awdurdodau Lleol ac Asiantau Gorfodi hysbysebu manylion cyswllt ymgynghorwyr dyled lleol chenedlaethol ar eu gwefannau. Gall asiantaethau cyngor gynorthwyo drwy hyrwyddo'r angen i gwsmeriaid gysylltu â'u Hawdurdodau Lleol cyn gynted â phosibl i gytuno ar gynlluniau talu. Efallai y byddai hefyd o fudd i gynghorau gyfeirio at yr offer Cynllunio Ariannol sydd ar gael i helpu cwsmeriaid reoli eu harian.
4. Bydd Awdurdodau Lleol yn sicrhau bod yr Asiantau Gorfodi yn derbyn yr wybodaeth angenrheidiol am ddyled/ ddyledion Treth y Cyngor er mwyn iddynt allu cwblhau eu dogfennau statudol yn unol ag OS 2014/421 Gorfodaeth, Cymru a Lloegr (Rheoliadau Ardystio Asiantau Gorfodi 2014).
5. Dylai bob parti geisio cydweithio i adolygu a hyrwyddo gwell ymgysylltiad â thalwyr Treth y Cyngor, dylai hyn gynnwys:
    a. Gwybodaeth ar sut y gellir lleihau biliau drwy gronfeydd cymorth, esgusodiadau a Chynllun Gostyngiad Treth y Cyngor;
    b. Sut y dylai trethdalwyr gysylltu â'r Awdurdod Lleol os ydynt yn profi caledi ariannol; a'r
    c. Canlyniadau o adael i ddyledion ar flaenoriaeth gronni.
6. Dylid sicrhau bod gwybodaeth am offer cyllidebu ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan yr Asiantaeth Cyngor gyda dolenni penodol sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau mynediad cyflym. Hefyd, dylid sicrhau bod yr wybodaeth ar gael drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn swyddfeydd yr asiantaethau perthnasol.
7. Os yw'r cwsmer yn hawlio Credyd Cynhwysol ac os yw wedi nodi bod ganddo sawl dyled neu bryderon cyllidebu, efallai y dylid gwneud cais am cais am gyngor arbnigol, a gellir defnyddio hyn fel ffordd o sicrhau bod taliadau yn cael eu gwneud.

## Adennill

Os nad yw bil Treth y Cyngor yn cael ei dalu, bydd yr Awdurdod Lleol yn dechrau ar y broses adennill.

Er i'r Awdurdodau Lleol geisio cysylltu â chwsmer cyn gynted â phosibl, yn aml nid yw cwsmer yn ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol tan ei fod wedi cael ymweliad gan yr Asiant Gorfodi. Y cynharaf y mae cwsmer yn ymgysylltu â'r Cyngor, y cynharaf y gellir darparu cyngor a chymorth a all gynorthwyo preswylydd i ddeall ei atebolrwydd a'i gyfrifoldebau i dalu.

Dylid gwneud ymdrech gydunol i rwystro dyled rhag cael ei hatgyfeirio at yr Asiant Gorfodi. Os nad oes modd osgoi'r Asiant Gorfodi, yn ystod y cam cydymffurfio â Deddf Llysoedd Tribiwnlys a Gorfodaeth, dylai'r Asiant Gorfodi gyfeirio'r unigolyn at ddarparwyr cyngor ar arian a dyled ac asesu a oes tystiolaeth o fregusrwydd neu galedi, er mwyn osgoi gwneud dyled yn waeth, felly:

1. Bydd Awdurdodau Lleol yn adolygu'r holl ffioedd sy'n gysylltiedig â chael gorchmynion dyled yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn rhesymol ac mor eglur a thryloyw â phosibl.
2. Bydd pob achos yn cael ei archwilio ôl ei rinweddau ei hun ac mae'n rhaid i drefniadau talu fod yn fforddiadwy a chynaliadwy tra'n sicrhau bod Treth y Cyngor yn cael ei dalu o fewn cyfnod rhesymol o amser. Nod Awdurdodau Lleol yw darparu'r hyblygrwydd i rannu'r taliadau dros gyfnod hirach na blwyddyn mewn amgylchiadau priodol, yn cynnwys tu hwnt i ddiwedd blwyddyn ariannol.
3. Dylai Awdurdodau Lleol adolygu pob gorchymyn dyled ar sail unigol i benderfynu ar y dull mwyaf priodol o adennill y ddyled, gan wneud defnydd priodol o'r holl wybodaeth a chudd-wybodaeth sydd ar gael iddynt.
4. Bydd Awdurdodau Lleol yn blaenoriaethu didyniadau uniongyrchol o fudd-daliadau neu atafaelu enillion yn hytrach na defnyddio Asiantau Gorfodi lle bo hyn yn ymarferol a rhesymol.
5. Lle bo'n bosibl ac yn briodol, os oes gan gwsmer sawl gorchymyn dyled, dylid eu cydgrynhoi cyn eu cyfeirio at Asiantau Gorfodi.
6. Dylai Asiantau Gorfodi sicrhau bod hawliau a chyfrifoldebau pob parti, yn enwedig hawliau a chyfrifoldebau'r cwsmer, wedi'u nodi'n glir yn eu gohebiaeth a bod llythyrau yn annog defnyddio gwasanaethau cyngor ar ddyled sy'n rhad ac am ddim.
7. Bydd Asiantau Gorfodi yn rhoi rhif cyswllt a chyfeiriad e-bost i'r cwsmer rhag ofn y bydd dymuno siarad â'r Awdurdod Lleol os oes ganddo ymholiad o ran y ddyled.
8. Os yw'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol bod gan gwsmer hawliad cyfreithlon a pherthnasol heb ei dalu am Gynllun Gostyngiad Treth y Cyngor, Credyd

Cynhwysol neu Fudd-Dal Tai, neu unrhyw fudd-dal gwladol perthnasol arall a fyddai'n talu neu'n gostwng y balans sy'n weddill yn sylweddol, dylid atal prosesau adennill yr Asiant Gorfodi. Bydd yr ataliad yn cael ei godi pan fo penderfyniad wedi'i wneud mewn perthynas â'r hawliad.

9. Bydd Asiantau Gorfodi ond yn codi taliadau yn unol â Deddf Llysoedd Tribiwnlys a Gorfodaeth a dylai Awdurdodau Lleol fonitro hyn fel rhan o'u trefniadau perfformiad â'r Asiant Gorfodi.

10. Bydd Awdurdodau Lleol yn sicrhau bod gweithdrefnau ar waith sy'n galluogi Asiantau Gorfodi i drafod a derbyn trefniadau talu estynedig, lle bo'n glir ac yn amlwg nad oes gan y cwsmer yr arian i dalu'r ddyled yn llawn.

11. Bydd Awdurdodau Lleol yn gweithio gydag ymgynghorwyr dyled i drafod taliadau sydd yn realistig ar ran y cwsmer ar unrhyw adeg yn ystod y broses, gan gynnwys pan fo'r ddyled wedi'i phasio i'r Asiant Gorfodi, ar yr amod bod y cwsmer wedi rhoi caniatâd i'r unigolyn hwnnw drafod ei achos a bod y caniatâd hwnnw wedi'i gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Asiant Gorfodi.

12. Dylai bob parti ddefnyddio'r Datganiad Ariannol Safonol neu ffurflen gyfwerth, ond os yw'r achos wedi'i nodi drwy gyngor ar ddyled arbenigol,yn yr achos hwn dylid defnyddio'r ffurflenni cyllidebu i nodi incwm a gwariant cwsmer. Dylid defnyddio'r wybodaeth a gesglir drwy'r dulliau hyn fel sail ar gyfer trafod taliadau Treth y Cyngor a thaliadau eraill sy'n cael eu hadolygu. Dylai'r cwsmer ddarparu tystiolaeth briodol i gefnogi'r wybodaeth, os oes angen. Rhoddir blaenoriaeth i sicrhau bod dyled y flwyddyn gyfredol yn cael ei thalu'n gyntaf er mwyn ceisio osgoi gwaethygu camau adennill yn ddiangen.

13. Darperir eglurder i'r cwsmer o ran pa ddyledion sy'n cael eu talu, y symiau a phryd, yn enwedig pan fo gan gwsmer sawl gorchymyn dyled.

14. Bydd Awdurdodau Lleol yn sicrhau bod yr holl gwynion mewn perthynas ag Asiantau Gorfodi yn cael eu hadolygu a'u hateb, ac os oes angen bydd y broses o adennill y ddyled yn cael ei gohirio dros dro nes bod y gŵyn wedi'i datrys. Dylai'r Asiant Gorfodi fonitro ac adrodd yn ôl ar dueddiadau a phatrymau cwynion a dylai'r Cyngor gymryd rhan mewn cyfarfodydd diweddaru rheolaidd.

15. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried defnyddio Adran 13A Deddf Llywodraeth Leol 1992 mewn amgylchiadau priodol.

Cymeradwywyd y Protocol gan:

Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Llywodraeth Cymru

Cynghorydd Anthony Hunt (Torfaen)

Aelod Arweiniol CLlLC

Awdurdod Lleol

# Protocol Treth Cyngor Cymru

# Arfer Dda wrth Gasglu Treth y Cyngor

**Cymeradwywyd gan:**

**Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CLlLC • WLGA

**Ionawr 2019**

# Protocol Treth Cyngor Cymru

## Cyflwyniad

Mae'n wir bod talwyr Treth y Cyngor yn derbyn gwasanaeth gwell pan fo awdurdodau lleol[1], asiantau gorfodi ac asiantaethau cyngor yn gweithio'n agos gyda'i gilydd. Gall ymgysylltu'n gynnar a chyswllt rhagweithiol gydag unigolion sy'n cael trafferth talu biliau atal trethdalwyr rhag mynd i fwy o ddyled a lleihau straen.

Mae'n bosib yn gall hyn hefyd leihau costau casglu a'r galw ar wasanaethau cyhoeddus lleol.

Mae'r protocol hwn yn darparu canllawiau ar sut y gellir cryfhau partneriaethau lleol a sut i gefnogi preswylwyr yn well. Mae'r ddogfen hefyd yn adeiladu ar y gwaith ymchwil helaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru[2], mewn cysylltiad â dulliau'r Awdurdod Lleol i adennill dyled, a'r protocol arfer da presennol a gefnogir gan y Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth Cenedlaethol[3].

Mae'r protocol yn amlinellu'r arfer orau a chanllaw ar sut i ddelio â chwsmeriaid bregus. Os nad yw cwsmer yn ymgysylltu â'r awdurdod lleol yn gynnar, mae'n bosib y byddai unrhyw fregusrwydd ond yn cael ei nodi yn dilyn cyswllt ag asiant gorfodi. Mae bregusrwydd yn amhosib i'w adnabod heb ryw fath o gyswllt ac felly bydd ymgysylltiad cynnar gan gwsmeriaid neu eu cynrychiolwyr o gymorth i bawb sy'n gysylltiedig, er mwyn gallu darparu'r cymorth a'r cyngor priodol, boed hynny gan yr awdurdod lleol neu gan sefydliadau mwy priodol.

Mae'r protocol yn cydnabod yr angen am gymorth ychwanegol i helpu cwsmeriaid bregus i ymgysylltu â'r awdurdod lleol neu'r asiantau gorfodi ar unrhyw adeg yn ystod y broses. Mae cydnabyddiaeth hefyd bod rhai achosion o fregusrwydd yn fwy amlwg na'i gilydd, er enghraifft byddai beichiogrwydd neu anabledd difrifol yn amlwg, ond mae'n bosibl na fyddai cyflyrau eraill mor amlwg.

Gall bregusrwydd trethdalwyr amrywio yn dibynnu ar y cwsmer a gall fod am gyfnod penodol o amser yn unig. Yn gryno, lle bo'r asiant gorfodi yn amau bod bregusrwydd yn ffactor o ran gorfodi, naill ai bregusrwydd y trethdalwr neu unigolyn arall sy'n byw yn yr eiddo, dylai atal y broses dros dro ac egluro y bydd yn cyflwyno adroddiad ac unrhyw dystiolaeth sydd ar gael i'r awdurdod lleol. Yna bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu ar y camau nesaf, i barhau â'r broses orfodi ai peidio a chynghori'r asiant gorfodi yn unol â hynny.

---

[1] Pan rydym yn defnyddio'r term "awdurdodau lleol" mae hyn yn cynnwys contractwyr allanol yr awdurdod lleol, pan fo awdurdod lleol wedi creu cytundeb â sefydliadau allanol i ymgymryd â gwaith gweinyddol y broses casglu treth.

[2] Dulliau Awdurdodau Lleol i adennill treth y cyngor yng Nghymru – Ymchwil Cymdeithasol Rhif:57/2017, cyhoeddwyd 28/09/2017

[3] Protocol Treth Cyngor Cymru – Protocol Arfer Dda wrth Gasglu Treth y Cyngor Diwygiedig (Medi 2017)

Pan fydd bregusrwydd yn cael ei gydnabod, er y bydd y trethdalwr yn cael ei drin â gofal a chymorth, prif ffocws y ffordd o weithredu a gytunwyd arni fydd sicrhau bod Treth y Cyngor sy'n ddyledus yn cael ei dalu, ei esgusodi neu ei leihau, pa bynnag un sy'n berthnasol o dan yr amgylchiadau neu gyfuniad o'r tri.

Mae'r protocol yn cyflwyno'r holl argymhellion a amlinellwyd ym mhapur ymchwil Llywodraeth Cymru ac mae'n nodi cyfres o gamau gweithredu i sefydliadau partner eu hystyried yn lleol. Bwriad y ddogfen hon yw galluogi ac annog cysylltiad rheolaidd i drafod arferion a pholisïau'n ymwneud â Threth y Cyngor.

Bydd gan Awdurdodau Lleol weithdrefnau penodol ar waith i gynorthwyo cwsmeriaid bregus, a thrwy eu hadolygu'n rheolaidd gall bob parti sicrhau bod achosion o ôl-ddyledion yn cael eu trin yn briodol tra bo cwynion yn cael eu datrys yn effeithlon.

Dylai'r protocol hwn gryfhau'r prosesau casglu treth a sicrhau cysondeb ar draws Gymru. Mae'r protocol hefyd yn cydnabod bod gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol Gytundebau Lefel Gwasanaeth, sydd eisoes ar waith gydag Asiantau Gorfodi, a fyddai'n cynnwys mwy o fanylder ynghylch materion gweithredol a gweithrediadol. Bydd y ddogfen hon yn ategol i'r cytundebau hyn ac yn darparu canllawiau sylfaenol ar y maes hwn.

Bwriad y protocol yw sicrhau bod cysondeb wrth ddarparu cymorth i'r unigolion hynny sy'n cael trafferth rheoli eu harian, tra bod gorfodaeth yn effeithiol yn erbyn yr aelwydydd hynny sydd â'r arian i dalu ond yn dewis peidio gwneud hynny.

Drwy fabwysiadu'r protocol hwn, bydd Awdurdodau Lleol, Asiantau Gorfodi ac asiantaethau cyngor yn cynorthwyo trethdalwyr â thalu eu biliau treth y cyngor ar amser a chael mynediad at gymorth a chyngor ar ddyled pan fo'r angen.

## Partneriaeth

I feithrin gwaith partneriaeth sy'n fwy effeithiol:

1. Bydd Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd gyda'r Asiantau Gorfodi a'r Asiantaethau Cyngor enwebedig neu weithredol i drafod materion ymarferol a materion polisi, gyda'r nod o wella darpariaeth gwasanaeth a rheoli disgwyliadau cwsmeriaid. Dylid pennu amlder a chwmpas y cyfarfodydd hyn yn lleol, fodd bynnag dylid cynnal cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.
2. Bydd gan bob parti sianeli cyswllt dynodedig er mwyn sicrhau bod problemau yn cael eu datrys yn unol â therfynau amser a gytunwyd yn lleol.
3. Bydd pob parti yn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth drwy rannu arferion da ac, os yn briodol, gweithdai hyfforddiant.
4. Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am y broses gasglu gyffredinol a, lle bo'n briodol, dylent weithio ar y cyd ag Asiantaethau Cyngor ac Asiantau Gorfodi i ddarparu hyfforddiant, yn enwedig ar ymwybyddiaeth o fregusrwydd a chaledi.
5. Mae'n rhaid i drefniadau gweithdrefnol gydag Asiantau Gorfodi sicrhau mewn achosion lle mae'r Asiant Gorfodi neu'r Awdurdod Lleol wedi nodi bregusrwydd, bod proses eglur i ohirio'r achos dros dro nes y ceir cyfarwyddyd pellach gan yr Awdurdod Lleol a, lle bo'n briodol, bod y cwsmer yn cael ei atgyfeirio at yr adran briodol. Bydd hyn yn rhoi amser i'r cwsmer ddarparu tystiolaeth o fregusrwydd ac, os yn briodol, i geisio cyngor a chymorth neu i sefydlu trefniant talu addas.
6. Dylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio eu gweithdrefnau cwyno presennol i bobl gael rhoi gwybod am gwynion. Dylai Awdurdodau Lleol fonitro a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn rheolaidd (os yn briodol) mewn perthynas â'r cwynion hynny sy'n cael eu cynnal.

## Gwybodaeth

I wella'r wybodaeth a ddarperir i dalwyr Treth y Cyngor mewn perthynas â Threth y Cyngor, sut i gael cefnogaeth a chyngor ar ddyled a hyrwyddo ymgysylltiad:

1. Nod pob parti yw cydweithio i sicrhau fod biliau a llythyrau yn hawdd i'w dilyn a'u deall o fewn y gofynion statudol amrywiol yn ymwneud â'r cynnwys. Dylai llythyrau gynnwys rhif ffôn cyswllt a chyfeiriad e-bost a dylid sicrhau bod yr wybodaeth ar gael ar-lein.
2. Mae Awdurdodau Lleol eisoes yn cynnig ystod eang o drefniadau talu a ddylai ganiatáu i'r cwsmer wneud dewisiadau, yn cynnwys dyddiadau talu gwahanol fewn y mis, rhannu'r taliadau rhwng mis Ebrill a mis Mawrth (12 mis yn hytrach na 10), sawl dyddiad debyd uniongyrchol, a gallant hefyd gynnig symiau talu i gynorthwyo unigolion ag incymau ansefydlog. Bydd hyn yn caniatáu i unigolion gyllidebu yn fwy effeithiol.
3. Dylai Awdurdodau Lleol ac Asiantau Gorfodi hysbysebu manylion cyswllt ymgynghorwyr dyled lleol chenedlaethol ar eu gwefannau. Gall asiantaethau cyngor gynorthwyo drwy hyrwyddo'r angen i gwsmeriaid gysylltu â'u Hawdurdodau Lleol cyn gynted â phosibl i gytuno ar gynlluniau talu. Efallai y byddai hefyd o fudd i gynghorau gyfeirio at yr offer Cynllunio Ariannol sydd ar gael i helpu cwsmeriaid reoli eu harian.
4. Bydd Awdurdodau Lleol yn sicrhau bod yr Asiantau Gorfodi yn derbyn yr wybodaeth angenrheidiol am ddyled/ ddyledion Treth y Cyngor er mwyn iddynt allu cwblhau eu dogfennau statudol yn unol ag OS 2014/421 Gorfodaeth, Cymru a Lloegr (Rheoliadau Ardystio Asiantau Gorfodi 2014).
5. Dylai bob parti geisio cydweithio i adolygu a hyrwyddo gwell ymgysylltiad â thalwyr Treth y Cyngor, dylai hyn gynnwys:
    a. Gwybodaeth ar sut y gellir lleihau biliau drwy gronfeydd cymorth, esgusodiadau a Chynllun Gostyngiad Treth y Cyngor;
    b. Sut y dylai trethdalwyr gysylltu â'r Awdurdod Lleol os ydynt yn profi caledi ariannol; a'r
    c. Canlyniadau o adael i ddyledion ar flaenoriaeth gronni.
6. Dylid sicrhau bod gwybodaeth am offer cyllidebu ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol a gwefan yr Asiantaeth Cyngor gyda dolenni penodol sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau mynediad cyflym. Hefyd, dylid sicrhau bod yr wybodaeth ar gael drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn swyddfeydd yr asiantaethau perthnasol.
7. Os yw'r cwsmer yn hawlio Credyd Cynhwysol ac os yw wedi nodi bod ganddo sawl dyled neu bryderon cyllidebu, efallai y dylid gwneud cais am cais am gyngor arbnigol, a gellir defnyddio hyn fel ffordd o sicrhau bod taliadau yn cael eu gwneud.

## Adennill

Os nad yw bil Treth y Cyngor yn cael ei dalu, bydd yr Awdurdod Lleol yn dechrau ar y broses adennill.

Er i'r Awdurdodau Lleol geisio cysylltu â chwsmer cyn gynted â phosibl, yn aml nid yw cwsmer yn ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol tan ei fod wedi cael ymweliad gan yr Asiant Gorfodi. Y cynharaf y mae cwsmer yn ymgysylltu â'r Cyngor, y cynharaf y gellir darparu cyngor a chymorth a all gynorthwyo preswylydd i ddeall ei atebolrwydd a'i gyfrifoldebau i dalu.

Dylid gwneud ymdrech gydunol i rwystro dyled rhag cael ei hatgyfeirio at yr Asiant Gorfodi. Os nad oes modd osgoi'r Asiant Gorfodi, yn ystod y cam cydymffurfio â Deddf Llysoedd Tribiwnlys a Gorfodaeth, dylai'r Asiant Gorfodi gyfeirio'r unigolyn at ddarparwyr cyngor ar arian a dyled ac asesu a oes tystiolaeth o fregusrwydd neu galedi, er mwyn osgoi gwneud dyled yn waeth, felly:

1. Bydd Awdurdodau Lleol yn adolygu'r holl ffioedd sy'n gysylltiedig â chael gorchmynion dyled yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn rhesymol ac mor eglur a thryloyw â phosibl.
2. Bydd pob achos yn cael ei archwilio ôl ei rinweddau ei hun ac mae'n rhaid i drefniadau talu fod yn fforddiadwy a chynaliadwy tra'n sicrhau bod Treth y Cyngor yn cael ei dalu o fewn cyfnod rhesymol o amser. Nod Awdurdodau Lleol yw darparu'r hyblygrwydd i rannu'r taliadau dros gyfnod hirach na blwyddyn mewn amgylchiadau priodol, yn cynnwys tu hwnt i ddiwedd blwyddyn ariannol.
3. Dylai Awdurdodau Lleol adolygu pob gorchymyn dyled ar sail unigol i benderfynu ar y dull mwyaf priodol o adennill y ddyled, gan wneud defnydd priodol o'r holl wybodaeth a chudd-wybodaeth sydd ar gael iddynt.
4. Bydd Awdurdodau Lleol yn blaenoriaethu didyniadau uniongyrchol o fudd-daliadau neu atafaelu enillion yn hytrach na defnyddio Asiantau Gorfodi lle bo hyn yn ymarferol a rhesymol.
5. Lle bo'n bosibl ac yn briodol, os oes gan gwsmer sawl gorchymyn dyled, dylid eu cydgrynhoi cyn eu cyfeirio at Asiantau Gorfodi.
6. Dylai Asiantau Gorfodi sicrhau bod hawliau a chyfrifoldebau pob parti, yn enwedig hawliau a chyfrifoldebau'r cwsmer, wedi'u nodi'n glir yn eu gohebiaeth a bod llythyrau yn annog defnyddio gwasanaethau cyngor ar ddyled sy'n rhad ac am ddim.
7. Bydd Asiantau Gorfodi yn rhoi rhif cyswllt a chyfeiriad e-bost i'r cwsmer rhag ofn y bydd dymuno siarad â'r Awdurdod Lleol os oes ganddo ymholiad o ran y ddyled.
8. Os yw'r Awdurdod Lleol yn ymwybodol bod gan gwsmer hawliad cyfreithlon a pherthnasol heb ei dalu am Gynllun Gostyngiad Treth y Cyngor, Credyd

Cynhwysol neu Fudd-Dal Tai, neu unrhyw fudd-dal gwladol perthnasol arall a fyddai'n talu neu'n gostwng y balans sy'n weddill yn sylweddol, dylid atal prosesau adennill yr Asiant Gorfodi. Bydd yr ataliad yn cael ei godi pan fo penderfyniad wedi'i wneud mewn perthynas â'r hawliad.

9. Bydd Asiantau Gorfodi ond yn codi taliadau yn unol â Deddf Llysoedd Tribiwnlys a Gorfodaeth a dylai Awdurdodau Lleol fonitro hyn fel rhan o'u trefniadau perfformiad â'r Asiant Gorfodi.
10. Bydd Awdurdodau Lleol yn sicrhau bod gweithdrefnau ar waith sy'n galluogi Asiantau Gorfodi i drafod a derbyn trefniadau talu estynedig, lle bo'n glir ac yn amlwg nad oes gan y cwsmer yr arian i dalu'r ddyled yn llawn.
11. Bydd Awdurdodau Lleol yn gweithio gydag ymgynghorwyr dyled i drafod taliadau sydd yn realistig ar ran y cwsmer ar unrhyw adeg yn ystod y broses, gan gynnwys pan fo'r ddyled wedi'i phasio i'r Asiant Gorfodi, ar yr amod bod y cwsmer wedi rhoi caniatâd i'r unigolyn hwnnw drafod ei achos a bod y caniatâd hwnnw wedi'i gyflwyno'n ysgrifenedig i'r Asiant Gorfodi.
12. Dylai bob parti ddefnyddio'r Datganiad Ariannol Safonol neu ffurflen gyfwerth, ond os yw'r achos wedi'i nodi drwy gyngor ar ddyled arbenigol,yn yr achos hwn dylid defnyddio'r ffurflenni cyllidebu i nodi incwm a gwariant cwsmer. Dylid defnyddio'r wybodaeth a gesglir drwy'r dulliau hyn fel sail ar gyfer trafod taliadau Treth y Cyngor a thaliadau eraill sy'n cael eu hadolygu. Dylai'r cwsmer ddarparu tystiolaeth briodol i gefnogi'r wybodaeth, os oes angen. Rhoddir blaenoriaeth i sicrhau bod dyled y flwyddyn gyfredol yn cael ei thalu'n gyntaf er mwyn ceisio osgoi gwaethygu camau adennill yn ddiangen.
13. Darperir eglurder i'r cwsmer o ran pa ddyledion sy'n cael eu talu, y symiau a phryd, yn enwedig pan fo gan gwsmer sawl gorchymyn dyled.
14. Bydd Awdurdodau Lleol yn sicrhau bod yr holl gwynion mewn perthynas ag Asiantau Gorfodi yn cael eu hadolygu a'u hateb, ac os oes angen bydd y broses o adennill y ddyled yn cael ei gohirio dros dro nes bod y gŵyn wedi'i datrys. Dylai'r Asiant Gorfodi fonitro ac adrodd yn ôl ar dueddiadau a phatrymau cwynion a dylai'r Cyngor gymryd rhan mewn cyfarfodydd diweddaru rheolaidd.
15. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried defnyddio Adran 13A Deddf Llywodraeth Leol 1992 mewn amgylchiadau priodol.

Cymeradwywyd y Protocol gan:



Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Llywodraeth Cymru



Cynghorydd Anthony Hunt (Torfaen)

Aelod Arweiniol CLlLC

Awdurdod Lleol